**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

9 Awst 2023

Annwyl Gyfaill,

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Mae rhagor o fanylion am ein gwaith hyd yma, gan gynnwys y cylch gorchwyl, ar gael ar ein gwefan.

Un cwestiwn penodol sydd wedi'i godi yw sut mae gwasanaethau statudol yn ymdrin â honiadau o drais ar sail rhywedd yn fewnol. Byddem yn ddiolchgar, felly, pe gallech nodi pa weithdrefnau sydd gennych yn eu lle ar gyfer ymdrin â honiadau o drais ar sail rhywedd a wneir gan gyflogeion neu yn erbyn cyflogeion.

Byddem hefyd yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ar ein cylch gorchwyl yn fwy cyffredinol.

Gan ein bod yn nesáu at ddiwedd ein proses o gasglu tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe gallai eich ymateb ddod i law erbyn 29 Awst 2023, os yn bosibl.

Yn gywir

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.